



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Categoreiddio Cenedlaethol 2018-2019 ★NEWYDD★

Bydd Categoreiddio Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r canllawiau atodol yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar y ffordd y dylid cymhwyso'r dyfarniad, mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad mewn perthynas â'r categori cymorth, mewn achosion lle y gall fod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.

[Cliciwch yma](#) i weld yr amserlen.

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

## Hyfforddiant mis Medi / Hydref:

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
Ysgolion sy'n wybodus am drawma [dwyieithog]	08/11/2018 21/11/2018	Y Galeri, Caernarfon <b>DYDDIAD NEWYDD</b> Tŷ Menai, Bangor
Rhaglen Sefydlu i Gymorthyddion newydd [Carfan A – Cymraeg a Saesneg] <b>Rhaglen 2 ddiwrnod.</b>	02/10/2018 a 15/01/2019	Glasdir, Llanrwst <b>DYDDIAD NEWYDD</b>
Rhaglen Sefydlu i Gymorthyddion newydd [Carfan B – Cymraeg a Saesneg] <b>Rhaglen 2 ddiwrnod.</b>	11/10/2018 a 22/01/2019	Beaufort Park, Yr Wyddgrug <b>DYDDIAD NEWYDD</b>
Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen [Cymraeg]	28/09/2018	Tŷ Menai, Bangor
Gweithdy i Ddyfnhau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Addysgeg y Cyfnod Sylfaen i Athrawon sy'n Newydd i'r Cyfnod Sylfaen [Saesneg]	27/09/2018	Ysgol Aberconwy, Conwy
Google Classroom [Cymraeg]	02/10/2018 03/10/2018 05/10/2018	Coed y Brenin, Dolgellau Canolfan Fusnes Ynys Môn, Llangefni Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Google Classroom [Saesneg]	18/10/2018 19/10/2018 23/10/2018	Faenol Fawr, Bodelwyddan Pafiliwn Llangollen GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Datblygu iaith fynegiannol gyfoethog disgyblion ac ysgrifennu estynedig ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen [Cymraeg]	08/10/2018 09/10/2018 10/10/2018 11/10/2018	Ysgol Glan Morfa, Abergele [YSGOLION CONWY YN UNIG] Parc Menai, Bangor Plas Tan y Bwlch, Maentwrog GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Datblygu iaith fynegiannol gyfoethog disgyblion ac ysgrifennu estynedig ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen [Saesneg]	08/10/2018 09/10/2018 15/10/2018	Ysgol Awel y Mynydd, Cyffordd Llandudno [YSGOLION CONWY YN UNIG] GwE, Linden House, Yr Wyddgrug OpTIC, Llanelwy
RhDAG [Carfan 8 – Cyfrwng Cymraeg] Diwrnod cyntaf y rhaglen:	08/10/2018	OpTIC, Llanelwy
RhDAG [Carfan 8 – Cyfrwng Saesneg] Diwrnod cyntaf y rhaglen:	08/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Prif Strategaethau Addysgu a Dysgu ar gyfer dysgwyr MATH [Saesneg]	08/10/2018 09/10/2018 10/10/2018	Tŷ Menai, Bangor Glasdir, Llanrwst Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Mathemateg: Gwella Cynnydd gyda Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 [Cyfrwng Saesneg]	16/10/2018	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Mathemateg: Gwella Cynnydd gyda Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 [Cyfrwng Cymraeg]	19/10/2018	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Cyfarfod Tymor yr Hydref Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd	19/10/2018	Venue Cymru, Llandudno
Addysgu Saesneg Effeithiol – “Tools and Habits of Effective English Teaching”	22/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Rhaglen Ddatblygu i Arweinwyr Rhifedd	24/10/2018	OpTIC, Llanelwy
Rhaglen Ddatblygu i Arweinwyr Llythrennedd		
Arweinwyr ar gyfer y Dyfodol (Uwchradd) [Carfan 2]	24/10/2018	Lleoliad i'w gadarnhau.
Uwchradd: Deall amrywiad mewn ysgol	24/10/2018	Gwesty'r Oriol, Llanelwy
Defnyddio Systemau Tracio a Thargedu yn effeithiol	10/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Sesiwn bore a phrynhawn]
	12/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Sesiwn bore a phrynhawn]
	16/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Sesiwn bore a phrynhawn]
	16/10/2018	M-SPark, Gaerwen [Sesiwn bore]
	17/10/2018	GwE, Penrallt, Caernarfon [Sesiwn Prynhawn]
	18/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn [Sesiwn bore a phrynhawn]
	18/10/2018	Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog [Sesiwn bore]
Diweddariad G6 ar gyfer Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr	05/10/2018	GwE, Penrallt, Caernarfon [Sesiwn bore]
	23/10/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn [Sesiwn Prynhawn]
	25/10/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Sesiwn bore]

## Swyddi gyda GwE

### Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – Arweinydd ADY – Trawsnewid – Cyfnod Sylfaen

- Secondiad llawn amser
- 01/10/2018 – 31/03/2020
- Secondiad ar delerau ac amodau gwaith presennol – rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno ar hyn cyn i chi ymgeisio

**Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn 10:00YB, DYDD GWENER, 28 MEDI 2018 at [SionWynEvans@gwegogledd.cymru](mailto:SionWynEvans@gwegogledd.cymru)**  
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarth y Gogledd ar **01824 708031** neu drwy e-bost at [Margaret.Davies@denbighshire.gov.uk](mailto:Margaret.Davies@denbighshire.gov.uk)  
Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

## **Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – Arweinydd ADY – Trawsnewid**

- Secondiad llawn amser
- 01/10/2018 – 31/03/2020
- Secondiad ar delerau ac amodau gwaith presennol – rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno ar hyn cyn i chi ymgeisio

**Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn 10:00YB, DYDD GWENER, 28 MEDI 2018 at [SionWynEvans@gwegogledd.cymru](mailto:SionWynEvans@gwegogledd.cymru)**  
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhanbarth y Gogledd ar **01824 708031** neu drwy e-bost at [Margaret.Davies@denbighshire.gov.uk](mailto:Margaret.Davies@denbighshire.gov.uk)  
Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

## **Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol**

### **Diweddariad G6 ar gyfer Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr ★NEWYDD★**

Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i Benaethiaid Newydd / Dros dro ddod i adnabod system G6.  
Gall Penaethiaid presennol ac Uwch Arweinwyr hefyd fynychu os ydynt am ddiweddarau eu gwybodaeth am y system G6.  
**Cofrestrwch drwy G6.**

### **Google Classroom ★NEWYDD★**

Mae Google for Education bellach ar gael drwy blatfform dysgu digidol Hwb. [Cliciwch yma](#) i weld manylion yr hyfforddiant Google sydd ar gael yn ystod y tymor. **Cofrestrwch drwy G6.**

### **Rhaglen Datblygu Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd 2018-2019 ★NEWYDD★**

Ydych chi'n Arweinydd Llythrennedd/Rhifedd? Ydych chi am ddatblygu eich sgiliau arwain a chapasiti eich hysgol i wella safonau i ddysgwyr mewn Llythrennedd a Rhifedd?  
Yn ystod y rhaglen, byddwch yn rhan o brosiect yn seiliedig ar dystiolaeth, gan roi sylw i'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Cewch ddealltwriaeth glir o'r hyn yw dysgu ac addysgu rhagorol, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol, defnyddio data yn effeithiol, hunan arfarnu a chynllunio gweithredol. **Cofrestrwch drwy G6.**

### **Gweithdai y Cyfnod Sylfaen ★NEWYDD★**

[Yma](#) cewch fanylion am y gweithdai y mae GwE yn eu cynnal ar gyfer Athrawon a Chymorthyddion Dosbarth y Cyfnod Sylfaen trwy gydol y flwyddyn. **Cofrestrwch drwy G6.**

### **Cyfarfodydd Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd**

Diben y cyfarfod Rhwydwaith Llythrennedd/Rhifedd hanner diwrnod hwn yw dod ag Arweinwyr Llythrennedd/Rhifedd ynghyd mewn cyfarfod anffurfiol i rannu, trafod ac archwilio'r syniadau diweddaraf ym maes datblygu llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion cynradd.

**RHIFEDD** – Asesiadau personol ar-lein newydd.

**LLYTHRENNEDD** – Geirfa.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

### **Arweinwyr y Dyfodol [Carfan 2] – Ysgolion Uwchradd**

Mae'r rhaglen datblygu proffesiynol hon i staff sy'n cychwyn ar eu taith ym maes arweinyddiaeth sydd â'r talent, y gallu a'r uchelgais i fod yn uwch arweinwyr a phenaethiaid y dyfodol.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). **Cofrestrwch drwy G6.**

### **Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP]**

**NODYN RHYBUDD I YMGEISWYR – CADWCH Y DYDDIAD YN RHYDD**

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael eu cymeradwyo ar gyfer rhaglen asesu CPCP eleni fynychu Diwrnod Datblygu Cenedlaethol yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe ddydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018.

### **Llwybr Dysgu Cymorthyddion Dysgu [LlwdC]**

Darperir pedair rhaglen ar draws Cymru i Gymorthyddion Dysgu. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Bydd y pedair rhaglen yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i rwydweithio a chydweithio ag ymarferwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth.

Gallwch gofrestru ar y rhaglenni trwy G6. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## Hyfforddiant Uwchradd

### Cyfarfodydd Tymor yr Hydref i Benaethiaid Mathemateg ★NEWYDD★

Ceir rhestr o ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd ar draws y rhanbarth [yma](#).

MAE'N RHAID LLOGI LLE GAN DDEFNYDDIO EVENTBRITE. Am ragor o fanylion, cysylltwch â [delythellis@gwegogledd.cymru](mailto:delythellis@gwegogledd.cymru)

### Cyfarfodydd Tymor yr Hydref i Gydlynwyr Rhifedd Uwchradd ★NEWYDD★

DYDD IAU, 18 HYDREF 2018 – GLASDIR, LLANRWST

Ceir copi o raglen y dydd [yma](#). MAE'N RHAID LLOGI LLE GAN DDEFNYDDIO EVENTBRITE, AC ANFON UNRHYW ANGHENION DIATEGOL AT [delythellis@gwegogledd.cymru](mailto:delythellis@gwegogledd.cymru)

## Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

### Hyfforddiant Mewnol i ANG gan yr Awdurdodau

Mae rhestr o ddyddiadau a lleoliadau cyfleus i chi ar gael [yma](#).

### MA Astudiaethau Addysg 2018-2019

Mae'r cwrs yn cynnig dau lwybr ar gyfer y rhai sydd am ennill y cymhwyster hwn. Gall myfyrwyr ddewis dilyn rhaglen llawn amser o 15 mis neu ddewis dilyn y rhaglen rhan-amser gan Brifysgol Bangor.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

## Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

#### Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio addysg ehangach, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiwygio'r gweithdrefnau Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cafodd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017, a daeth yn ddeddf ar 24 Ionawr 2018. Mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl awdurdodau lleol a'r arweinydd trawsnewid rhanbarthol er mwyn cefnogi'r rhaglen ddiwygio hon.

#### Dangosfwrdd G6:

Er Medi 2018, mae yna fodiwl newydd yn ymddangos ar Ddangosfwrdd y G6 er mwyn cefnogi'r daith tuag at Fedi 2020. Bwriad y modiwl ydy cefnogi ysgolion i fod yn barod, gan sicrhau bod bob Ysgol mewn sefyllfa gref er mwyn gweithredu'r ddeddf pan ddaw i rym ar 1 Medi 2020.

Os hoffech fanylion pellach neu gymorth gyda'r modiwl, cysylltwch â [Margaret.davies@sirddinbych.gov.uk](mailto:Margaret.davies@sirddinbych.gov.uk)

#### Eiriolwyr Trawsnewid ADY Clwstwr:

Fel rhan o'r gwaith trawsnewid, mae bob clwstwr ar draws y Gogledd wedi cael y cyfle i enwebu un eiriolydd trawsnewid ADY clwstwr. Mi fydd y person enwebedig yn rhan greiddiol o gefnogi'r clwstwr i fod yn barod ar gyfer y ddeddf newydd, sy'n cynnwys sicrhau bod ysgolion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf er mwyn hysbysu a chefnogi rhieni. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'n heiriolwyr trawsnewid ADY clwstwr yn ystod y deunaw mis nesaf.

[Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter](#)

[GwEGogledd.Cymru](http://GwEGogledd.Cymru)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#)  
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â [bwletin@gwegogledd.cymru](mailto:bwletin@gwegogledd.cymru) yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

